Gyfeillion,
Mae'n gyfnod cyffrous yn hanes Bethlehem Newydd. Erbyn i chi dderbyn yr Adroddiad a darllen y geiriau hyn mae'n bosibl y bydd y gwaith o adnewyddu'r capel wedi ei gwblhau. Er mai'r bwriad yw creu gofod amlbwrpas a chegin hylaw mae'n bwysig mai prif bwrpas yr adeilad yw bodoli fel addoldy a hwyluso ein dulliau ni o ddod at ein gilydd fel cynulleidfa o gredinwyr i gynnal oedfaon.

Ni fyddai modd cychwyn ar fenter fel hon heblaw am werthiant Capel Mair ac Elim. Buom ar grwydr yn ystod cyfnod y gwaith adeiladu a chynnal oedfaon bendithiol yn y Gât, Ysgol y Bôrd, Llety Cynin ac wrth gwrs yng nghapel Gibeon. Bu rhai yn holi pam felly trafferthu buddsoddi cymaint o arian yn y gwaith o adnewyddu Bethlehem Newydd? Yr ateb i hynny yw mai dyma yw ein cenhadaeth.

Y sbardun i hyn fu manteisio ar gymhorthdal gan Undeb yr Annibynwyr i benodi Swyddog Cymunedol. Arweiniodd hyn at ystod o weithgareddau i ategu ein haddoliad. Rhaid canmol y gwirfoddolwyr sydd wedi bod mor barod i ymateb i arweiniad ysbrydoledig Annalyn. Cyfoethogwyd ein haddoliad gan gyfraniadau cyson yr aelodau yn ein symud oddi wrth oedfaon traddodiadol sydd wedi goroesi eu pwrpas. Unwaith bydd y gwaith ar y capel wedi ei gwblhau gallwn agor y drysau i bob math o fentrau newydd.

Rydym wedi pwrcasu cadeiriau newydd trwy gymhorthdal gan Ymddiriedolaeth Pantyfedwen. Rydym yn disgwyl clywed am gymhorthdal arall tuag at gost organ newydd ac rydym yn dra diolchgar i Dai ein horganydd am ei gyfraniad hael. Sicrhawyd cymhorthdal arall i osod trefn ar y fenter. Bydd angen gweinyddiaeth sicr, sustem gyllidol cynhwysfawr a strategaeth marchnata. Mae'r mentro yn parhau! Ydy hyn yn ddoeth?

Rhaid cofio i fentro fod yn rhan hanfodol o'r daith i Gristnogion o'r cychwyn cyntaf. Galwyd ar y disgyblion i adael eu teuluoedd, cartrefi a'u bywoliaeth i ddilyn y Crist i fod yn bysgotwyr dynion. Heriwyd y diwygwyr i wrthryfela yn erbyn confensiynau blinedig a chreu cynnwrf newydd. Rydym ninnau yn dilyn yn yr un traddodiad.

Diolch i Rhian, Rhys, Cynwyl ac Eilir am sicrhau ein bod yn derbyn yr Adroddiad. Petai mwy o aelodau yn cyfrannu trwy debyd uniongyrchol byddai hynny o gryn gymorth. Mae'r manylion i'w cael gan Rhian. Yn yr Hydref ymddeolodd Heulwen fel gofalydd a diolchwn iddi am ei hymroddiad dros y blynyddoedd gan gofio'n annwyl am ei rhieni a'i rhagflaenodd yn y gwaith. Rydym yn gwerthfawrogi gofal Rhydian wrth y gwaith adeiladu ond rhaid cyfeirio at gyfraniad rhyfeddol Rhys wrth helpu ei frawd bach yn rhad ac am ddim. Cyfraniad i'r achos oedd ei esboniad ond cyfraniad ymhell y tu hwnt i'r hyn y gellid ei ddisgwyl.

Collwyd anwyliaid yn ystod y flwyddyn ac estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â'u teuluoedd gan hyderu y bydd bendith a thangnefedd Duw arnynt. Edrychwn ymlaen i'r flwyddyn newydd hon yn ein hanes gyda chynnwrf yn ein calonnau ond sicrwydd bod Duw gyda ni bob amser.

Yn gywir,

Rhodri Glyn Thomas